Tasg 2

(Estynnol, sbardun 3)

Bydd eich athro/athrawes yn eich rhannu'n grwpiau o 7. Wedyn, bydd yn rhoi un o'r **berfau** neu'r **arddodiaid** yn y rhestr i bob grŵp.

Rhestr **berfau:** cofio, nofio, bwyta, edrych, gwylio, anghofio, sylwi.
Rhestr **arddodiaid:** ar, i, o, at, wrth.

Bydd pob grŵp yn llenwi'r tabl hwn gyda'i gilydd:

Ein berf (gorffennol)/arddodiad ni: **.....**	
Unigol	**Lluosog**
1. (fi)	1. (ni)
2. (ti)	2. (chi)
3. (fe/fo)	3. (nhw)
(hi)	

Wedyn:

- Bydd eich athro/athrawes yn gwirio ei fod yn gywir.
- Bydd pob aelod o'r grŵp yn cael **un** o'r berfau/arddodiaid i'w **gofio** – e.e. **darllenon ni** neu **amdanyn nhw**.
- Rhaid i bob grŵp ymarfer **rhedeg** y ferf/arddodiaid, gyda phob un yn dweud ei ferf/arddodiad allan yn uchel yn ei dro.
- Beth am thema i'ch perfformiad – e.e. dweud eich berf/arddodiad mewn ffordd arbennig , yn drist, yn araf, yn uchel iawn...
- Perfformio'r ferf/arddodiad i weddill y dosbarth. Pa grŵp roddodd y perfformiad gorau?